

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.



Lleoliadau Gwaith Gorfodol: canllaw ar gyfer sefydliadau cynnal posibl

Beth yw lleoliad gwaith gorfodol?

Mae lleoliadau gwaith gorfodol yn gysylltiedig â rhaglenni dychwelyd i waith penodol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Mae anogwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith yn cyfeirio hawlwr pan maent yn credu y bydd hyn yn eu helpu i symud yn agosach at waith. Ni ddylai lleoliadau gwaith gorfodol ddisodli swyddi ac mae'n rhaid iddynt fod o fudd i'r gymuned.

“

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych ar gyfer yr elusen a'r bobl ar y lleoliad gan fod yr elusen yn gallu manteisio ar y cymorth ychwanegol, tra bod y cyfranogwyr yn mwynhau eu hamser gyda ni ac yn datblygu sgiliau pwysig i'w cael yn ôl i mewn i'r gwaith.”

Rheolar Gofal

Beth yw manteision lleoliadau gwaith gorfodol?

Mae cynnal leoliad gwaith gorfodol yn eich galluogi i gyflawni cyfrifoldeb corfforaethol, tra'n darparu cymorth ychwanegol o fewn eich busnes.

Caiff hawlwr gymorth i adeiladu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i dychwelyd i'r gwaith, drwy ddarparu gwell dealltwriaeth o'r drefn o weithio. Mae gwaith yn dda ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol a lles¹. Gall nid yn unig helpu i ddarparu ymdeimlad o foddhad swydd a chyflawniad, ond hefyd magu hyder, hunanbarch ac uchelgais.

Roedd **72%** o gyfranogwyr lleoliad gwaith gorfodol a holwyd yn teimlo bod mynychu wedi rhoi hwb i'w hyder².

Dywedodd **89%** o'r rhai a fynychodd a holwyd bod mynychu lleoliad gwaith gorfodol wedi eu helpu i gydnabod manteision o'r drefn o weithio².

A gaf fy nhalu am gynnal lleoliad gwaith gorfodol?

Efallai y bydd rhai darparwyr yn talu sefydliadau am gynnal lleoliadau, fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwn yn gytundeb rhwng y ddwy ochr ac nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhan o'r penderfyniad hwn.

Sut y caiff cyfranogwr eu cyfeirio?

Bydd anogwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith yn cyfeirio hawlwr addas at y darparwr a fydd wedyn yn paru hawlwr gyda lleoliadau addas.

“

Mae'r lleoliad yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr godi gyda'r bore. Lle bod yr hyn y maent yn ei wneud yn uniongyrchol yn gysylltiedig â hapusrwydd aelodau'r gymuned.”

Elusen gadwraeth

A oes rhaid i mi dalu cyfranogwyr?

Na, nid ydych yn eu cyflogi oherwydd nid yw lleoliadau gwaith gorfodol yn disodli swyddi â thâl. Mae cyfranogwyr gyda chi i feithrin sgiliau a phrofiad gwerthfawr, a byddant yn parhau i gael budd-dal. Bydd darparwr yn cwmpasu unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â'r hawlydd, fel costau teithio a gofal plant.

Beth os na wnaeth rhywun fynychu neu gymryd rhan?

Fel sefydliad cynnal byddai angen i chi hysbysu darparwyr os na wnaeth ceisiwr fynychu neu gymryd rhan gan y gallai hyn effeithio ar eu budd-dal.

Ydy lleoliadau gwaith gorfodol yr un fath â gwaith gwirfoddol?

Nid yw cynnal lleoliad gwaith gorfodol yr un fath â chael gwirfoddolwyr. Caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at leoliadau gan anogwyr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith fel y gallant ennill profiad gwerthfawr. Yn aml, mae ein hawlwr yn dewis bod yn wirfoddolwyr ar ôl iddynt gwblhau eu lleoliad gwaith gorfodol.

“

Gall y rhan fwyaf o'r lleoliadau fod wedi cael yr agwedd anghywir ar gynllun y llywodraeth i sicrhau profiad gwaith er mwyn mynd i mewn i'r farchnad swyddi. Fodd bynnag, erbyn diwedd y rhaglen bedair wythnos, roedd 95% o'r cyfranogwyr yn awyddus i aros ar y lleoliadau.”

Rheolwr y Ganolfan Gymunedol

Sut y gallaf helpu i drawsnewid bywyd?

Ni oedd Gina erioed wedi gweithio a chafodd ei chyfeirio at Weithgaredd Gwaith Gorfodol Gwaith er mwyn ennill profiad gwaith gwerthfawr gan nad oedd wedi gweithio o'r blaen. Cafodd ei roi ar leoliad mewn sefydliad cymunedol yn Sheffield sy'n darparu llythrennedd sylfaenol a hyfforddiant TG ar gyfer oedolion ifanc.

Cododd mynychu lleoliad gwaith gorfodol uchelgeisiau cysylltiedig â gwaith **56%** o gyfranogwyr lleoliad gwaith gorfodol a arolygwyd.

Roedd rôl Gina yn cynnwys dyletswyddau gweinyddol a derbynfa cyffredinol. Ar ôl pythefnos, gwnaeth hynod o argraff ar y cynhaliwr gyda'i hawydd a'i hymroddiad i'r rôl, a chynigiwyd prentisiaeth a swyddi iddi. Roedd Gina yn ddiolchgar iawn am y cyfle a roddwyd iddi ac roedd yn gyffrous am ddechrau ei swydd newydd.

Ydy lleoliadau gwaith gorfodol yr un fath â phrofiad gwaith?

Na, mae profiad gwaith ar wahân. Ceir mynediad iddynt yn wirfoddol gan hawlwr ac nid oes angen i'r lleoliad fod yn fuddiol i'r gymuned. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o gael eu cynnal gan gyflogwyr yn y sector preifat.

Beth sy'n digwydd pan fydd y lleoliad gwaith gorfodol yn dod i ben?

Os byddwch am barhau i gynnal mwy o leoliadau, gallwch barhau i gael cyfranogwyr wedi eu cyfeirio atoch gan y darparwr.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gov.uk Contracts Finder

<https://www.gov.uk/contracts-finder>

¹Waddell G and Burton K (2006), Is work good for your health and well-being? London: TSO.

²Evaluation of Mandatory Work Activity (<https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-mandatory-work-activity-rr823>)

³Evaluation of Support for the very long term unemployed trailblazer (<https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-support-for-the-very-long-term-unemployed-trailblazer-rr824>)